Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Mawrth 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26 – Deddfau'r Cynulliad

---

## Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion i ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

2. Mae'r adroddiad yn argymell newidiadau i Reol Sefydlog 26. Mae'r newidiadau a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes i'w gweld yn Atodiad A, ac mae'r cynigion ar gyfer Rheol Sefydlog newydd i'w gweld yn Atodiad B.

## Y cefndir

3. Byddai rhai o'r newidiadau a gynigir i Reol Sefydlog 26 yn gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ei adroddiad *Deddfu yng Nghymru* a gyhoeddwyd ar 8 Hydref 2015. Mae eraill yn fân

newidiadau â'r bwriad o gael gwared ar anghysondebau ac amwyseddau sydd i'w cael ar hyn o bryd yn y Rheol Sefydlog.

4. Yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, croesawodd y Pwyllgor Busnes yr argymhellion a wnaed, gan ddatgan ei fwriad i roi rhagor o ystyriaeth i effaith nifer ohonynt. Ystyriodd y Pwyllgor gynigion manwl ym mis Chwefror 2016 gyda'r bwriad o benderfynu a ddylid rhoi cynigion ar gyfer newid gerbron y Cynulliad. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn Atodiad A yn gweithredu rhai o'r argymhellion hyn.

5. Roedd ymateb y Pwyllgor Busnes yn nodi y byddai'n argymell yn ei Adroddiad Etifeddiaeth y dylid bwrw ymlaen yn y Pumed Cynulliad ag argymhellion eraill adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

6. Roedd y rhaglen o ddiwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes ym mis Mai 2014 hefyd yn cynnwys adolygu Rheol Sefydlog 26 yn ei chyfanrwydd ar ôl i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyflwyno ei adroddiad, gyda'r nod o wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen er mwyn eglurder a chysondeb ar yr un pryd ag unrhyw newidiadau o sylwedd a fyddai'n deillio o ymchwiliad y Pwyllgor hwnnw. Mae'r newidiadau arfaethedig hyn hefyd wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

## Newidiadau arfaethedig i weithredu argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

*Dogfennau i gyd-fynd â Bil*

7. Byddai'r newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26.6, a chyflwyno Rheolau Sefydlog newydd 26.6A a 26.6B yn gweithredu argymhellion 4, 19(i), 19(ii), 19(iv) ac 20 yn adroddiad y Pwyllgor.

8. Maent yn ddigon penodol i lywio'r Aelodau sy'n gyfrifol o ran yr hyn sy'n ofynnol, ond yn dal yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer disgresiwn o safbwynt fformat a chynnwys.

9. Mae argymhelliad 4 yn awgrymu y dylai Memorandwm Esboniadol orfod:

- (i) datgan a gafodd Bil ei gyhoeddi fel drafft llawn neu ddrafft rhannol, ac os mai rhannau ohono sy'n ddrafft, pa rannau yw'r rheini;
- (ii) cynnwys crynodeb manwl o sut y mae Bil a gyflwynwyd wedi ei ddiwygio ers y Bil drafft, a'r rhesymau dros unrhyw newidiadau a fabwysiadwyd;
- (iii) nodi'r rhesymau, os yn berthnasol, am beidio â chyhoeddi Bil ar ffurf drafft.

10. Byddai'r newidiadau i Reol Sefydlog 26.6 yn cyflawni'r uchod.

11. Byddai'r newidiadau hyn hefyd yn rhoi ar waith yr awgrymiadau a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn Argymhelliad 19(ii) ynglŷn â sut y gellid gwella Rheol Sefydlog 26.6 i ddarparu gwybodaeth ariannol gliriach.

12. Byddai'r Rheol Sefydlog newydd arfaethedig, 26.6A, yn gweithredu argymhelliad 19(i) y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ddangos yn glir ble yn y Memorandwm Esboniadol y ceir hyd i ofynion y Rheol Sefydlog, er enghraifft trwy gyfrwng mynegai priodol.

13. Byddai Rheol Sefydlog newydd arfaethedig, 26.6B, yn gweithredu argymhelliad 19(iv) y Pwyllgor y dylid darparu tabl tarddiadau ochr yn ochr â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn egluro'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.

14. Byddai Rheol Sefydlog newydd arfaethedig, 26.6C, yn gweithredu argymhelliad 20 y Pwyllgor, y dylid darparu "Atodlenni Keeling" i gyd-fynd â'r Bil sy'n dangos yn glir sut y mae'r Bil yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol. Nid yw'r geiriad a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes yn defnyddio'r term 'Atodlen Keeling', ond mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu atodlen sy'n nodi geiriad deddfwriaeth bresennol a gaiff ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n glir sut y mae'r Bil yn diwygio'r geiriad hwnnw, pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol.

*Osgoi Cyfnod 1*

15. Mae argymhelliad 26 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn datgan:

> *Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Busnes yn adolygu pa mor ddigonol yw'r weithdrefn sy'n caniatáu osgoi proses graffu Cyfnod 1 a'r weithdrefn sy'n caniatáu'r defnydd o Filiau Brys Llywodraeth Cymru. Yn arbennig, dylai ystyried:*
>
> *(i) ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes gyhoeddi'r rhesymau dros ei benderfyniad o dan Reol Sefydlog 26.9 i ganiatáu Bil i osgoi'r broses graffu Cyfnod 1 mewn pwyllgor, cyn pen 2 ddiwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad hwnnw;*
>
> *(ii) ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol, wrth gyflwyno cynnig yn argymell bod Bil Llywodraeth yn cael ei drin fel Bil Brys y Llywodraeth o dan Reol Sefydlog 26.95, gyflwyno datganiad yn esbonio pam y dylid ei drin felly, a'r costau a'r canlyniadau eraill o beidio â gwneud hynny.*

16. Byddai'r Rheol Sefydlog 26.10A newydd arfaethedig yn gweithredu rhan gyntaf yr argymhelliad hwnnw, a byddai'r Rheol

Sefydlog 26.95A newydd drafft yn gweithredu'r ail ran. Mae'r ail ran yn adlewyrchu'r sail ar gyfer cynnwys gweithdrefn frys yn wreiddiol yn y Rheolau Sefydlog, h.y. rhaid bod cyfyngiadau cymhellol o ran amser a/neu arian. O dan y Rheol Sefydlog newydd, byddai'n ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol nodi'r cyfyngiadau hyn yn ysgrifenedig. Mater i'r Aelod sy'n gyfrifol fyddai'r hyn y mae'r datganiad yn ei gynnwys, ond gallai Aelodau eraill graffu arno, a gallai eu llywio wrth iddynt ystyried a ddylid caniatáu i'r Bil symud ymlaen fel Bil Brys.

**Newidiadau arfaethedig eraill**

17. Nodwyd bod y newidiadau arfaethedig a amlinellir isod yn angenrheidiol i gael gwared ar amwysedd ac anghysondebau yn Rheol Sefydlog 26:

*Cyfnod 2*

18. Rhaid i'r Cynulliad gytuno i egwyddorion cyffredinol Bil cyn y gall symud i Gyfnod 2, felly mae geiriad presennol Rheol Sefydlog 26.18 yn amwys. Cynigir hefyd y dylid newid trefn Rheolau Sefydlog 26.18 a 26.17, fel eu bod yn diffinio'r Pwyllgor sy'n gyfrifol yn gyntaf, ac yna'n darparu ar gyfer y cyfyngiadau ar ba bryd y gall gwrdd i ystyried gwelliannau.

*Adrannau ac atodlenni y bernir y cytunwyd arnynt*

19. Mae geiriad presennol Rheolau Sefydlog 26.24 - 26.26, a 26.42 - 26.44 yn awgrymu penderfyniad y **bydd** y Pwyllgor yn ei wneud i farnu y cytunwyd ar yr adran neu'r atodlen berthnasol. Yn ymarferol cytunwyd eisoes ar yr adran neu'r atodlen, ac felly mae'r newid arfaethedig yn gwneud hyn yn eglur.

*Y Cyfnod Adrodd*

20. Mae Rheol Sefydlog 26.46 yn nodi'r Rheolau Sefydlog sy'n gymwys i'r Cyfnod Adrodd. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at Reol Sefydlog 26.29, sy'n nodi bod Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben. Ni ddylid cyfeirio at y Rheol Sefydlog hon yma, yng nghyd-destun y Cyfnod Adrodd, gan nad yw'n gwneud synnwyr, a byddai'r newid arfaethedig felly'n ei hepgor o Reol Sefydlog 26.46. Mae'r Rheol Sefydlog newydd 26.45A yn nodi'n glir pryd y mae'r Cyfnod Adrodd yn dechrau.

*Ailystyried Biliau a basiwyd*

21. Yn yr un modd ag y mae Rheol Sefydlog 26.46 yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer y Cyfnod Adrodd, mae'r Rheol Sefydlog 26.54 newydd arfaethedig yn crynhoi'r ffaith bod y mwyafrif o weithdrefnau Cyfnod 3 hefyd yn berthnasol i'r Cyfnod Ailystyried. Mae Rheol Sefydlog 26.31 yn cwmpasu geiriad gwreiddiol 26.54 ac felly byddai'n ddiangen. Mae darpariaethau Rheol Sefydlog 26.53B hefyd yn cael eu cwmpasu gan weithdrefnau Cyfnod 3, ac felly cynigir y dylid dileu hwn yn ogystal.

22. Fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd, nid yw Rheol Sefydlog 26.52 yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o'r broses i'w dilyn pe byddai'r Goruchaf Lys yn cyfeirio Bil ar gyfer dyfarniad rhagarweiniol gan Lys Cyfiawnder Ewrop. Byddai'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig 26.52A a 26.52B yn nodi'r broses sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

*Darpariaethau cyffredinol mewn perthynas â gwelliannau i Filiau*

23. Mae'r newid arfaethedig i Reol Sefydlog 26.59 yn ei gwneud yn eglur y ceir cyflwyno gwelliannau bum niwrnod *neu fwy* cyn iddynt gael eu hystyried. Mae'r geiriad presennol yn awgrymu bod yn rhaid iddynt gael eu cyflwyno'n union bum niwrnod o flaen llaw.

*Cydsyniad y Goron*

24. Byddai'r newid arfaethedig i Reol Sefydlog 26.67 yn ei gwneud yn bosibl nodi Cydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw mewn unrhyw gyfarfod o'r Cynulliad, yn hytrach na dim ond yn ystod y trafodion ar y Bil. Gan nad yw Cyfnod 4 yn dilyn yn syth ar ôl Cyfnod 3 mwyach, gall fod angen nodi cydsyniad o'r fath y tu allan i'r trafodion ar Fil yn aml.

*Biliau Brys – Memorandwm Esboniadol diwygiedig*

25. Byddai'r newid arfaethedig i Reol Sefydlog 26.101 yn datgymhwyso'r gofyniad i osod Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn achos Biliau Brys. Mae Rheol Sefydlog 26.96 yn caniatáu ar gyfer cyflwyno Bil Brys heb Femorandwm Esboniadol, a hyd yn oed os darperir un, mae'r amserlen fyrrach ar gyfer Biliau o'r fath yn golygu na ellid cyflawni'r gofyniad i osod fersiwn ddiwygiedig o leiaf bum niwrnod cyn y cyfnod diwygio nesaf.

**Argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol na chytunwyd ar newid i'r weithdrefn ar eu cyfer**

26. Rhoddodd y Pwyllgor Busnes hefyd ystyriaeth i newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog i weithredu argymhellion 19(iii) a 22 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Trafodir y materion hyn isod, a cheir gwahaniaethau sylweddol ynglŷn â hwy rhwng safbwynt y Llywodraeth a'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Nid yw'r Pwyllgor Busnes wedi gallu cytuno ar unrhyw newid i'r gweithdrefnau ar hyn o bryd.

*Cyfnod Adrodd (Rheol Sefydlog 26.45)*

27. Argymhelliad 22 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol oedd y dylai'r Cyfnod Adrodd ddod yn rhan awtomatig

o'r broses ddeddfu oni bai bod y Cynulliad yn pleidleisio â mwyafrif o ddwy ran o dair i osgoi cyfnod o'r fath.

28. Roedd Paul Davies, Elin Jones ac Aled Roberts i gyd o blaid gweithredu argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn llawn, ond hysbyswyd y Pwyllgor Busnes gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth bod y Llywodraeth yn gwrthwynebu newid o'r fath. Ni ellid cytuno iddo felly.

29. Nid oedd cynigion amgen i roi effaith i ysbryd argymhelliad y Pwyllgor yn dderbyniol i'r Gweinidog ychwaith, er enghraifft trwy fynnu mwyafrif syml yn hytrach na dwy ran o dair er mwyn penderfynu osgoi Cyfnod Adrodd, neu gadw Cyfnod Adrodd fel Cyfnod dewisol ond gan ganiatáu i unrhyw Aelod (nid dim ond yr Aelod sy'n gyfrifol) wneud y cynnig.

*Craffu a gydymffurfir â hawliau'r Confensiwn (Rheol Sefydlog 26.6)*

30. Mae Argymhelliad 19(iii) y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn nodi y dylai Rheol Sefydlog 26.6 ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil esbonio sut y mae wedi ystyried hawliau o dan y Confensiwn wrth baratoi'r Bil. Ysgogwyd yr argymhelliad hwn gan feirniadaeth y Goruchaf Lys o'r modd yr aeth y Cynulliad ati i graffu ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru). Y bwriad, wrth ofyn am y wybodaeth hon ar ddechrau'r gwaith o graffu ar Fil, oedd anfon neges glir i'r Goruchaf Lys ac i bobl Cymru ynglŷn â'r pwys y mae'r Cynulliad yn ei roi ar hawliau'r Confensiwn, a sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn brydlon ar gyfer gwaith craffu.

31. Roedd Paul Davies, Elin Jones ac Aled Roberts i gyd o blaid gweithredu argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn llawn, ond hysbyswyd y Pwyllgor Busnes gan y

Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth bod y Llywodraeth yn dymuno cael mwy o amser i ystyried goblygiadau'r argymhelliad, ac y byddai'n barod i ystyried newid o'r fath yn gynnar yn y Pumed Cynulliad.

32. O ganlyniad, ni allai'r Pwyllgor Busnes gytuno i weithredu'r argymhelliad hwn gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ond cytunwyd y dylai'r mater gael ei ddwyn i sylw Pwyllgor Busnes y Pumed Cynulliad i'w ystyried ar y cyfle cyntaf.

**Materion eraill a ohiriwyd i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes olynol**

33. Yn ogystal â chytuno i ohirio'r mater uchod i'w ystyried gan ei olynydd, mae Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Busnes wedi argymell ar wahân y dylai ei olynydd roi blaenoriaeth i ystyried nifer o faterion eraill yn ymwneud â'r broses ddeddfwriaethol a godwyd gan adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol:

- adolygiad o'r angen am gyfnod gofynnol ar gyfer craffu ar Filiau yng Nghyfnod 1;
- adolygiad o'r broses ar gyfer Biliau Aelodau gan ystyried y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gan Aelodau'r Cynulliad a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella'r broses;
- rhagor o waith i lywio'r drafodaeth ynglŷn â newidiadau i'w gwneud yn ofynnol bod testun sy'n egluro eu diben a'u heffaith yn cyd-fynd â phob gwelliant a gyflwynir i Fil.

34. Wrth ystyried y newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26, codwyd nifer o faterion eraill hefyd a oedd yn mynd y tu hwnt i gwmpas y cynigion gwreiddiol. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pumed Cynulliad roi blaenoriaeth hefyd i ystyried y rhain:

- Gweithdrefn ar gyfer cyflwyno Biliau ac amserlennu Biliau (Rheolau Sefydlog 26.4 a 26.9);

- A yw gwelliannau ag union yr un effaith gyfreithiol yn dderbyniadwy (Rheol Sefydlog 26.61);
- Biliau yn methu, yn cael eu gwrthod neu’n cael eu tynnu’n ôl (Rheol Sefydlog 26.77)

## Camau gweithredu

35. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn ffurfiol ar 8 Mawrth 2016, a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynigion a nodir yn Atodiad B.

**Atodiad A**

**RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Cynulliad**

| RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Cynulliad | | |
|---|---|---|
| | **Ffurf Biliau a Sut i'w Cyflwyno** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.1 | Yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog 26.80 i 26.94 caniateir i Fil gael ei gyflwyno ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.2 | Rhaid i Fil gael ei gyflwyno drwy gael ei osod. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.3 | Rhaid peidio â gosod Bil oni bai ei fod ar y ffurf briodol yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.4 | Pan gyflwynir Bil, rhaid cael datganiad Cymraeg a Saesneg gan y Llywydd i gyd-fynd ag ef a rhaid i'r datganiad hwnnw:<br>(i) nodi a fyddai darpariaethau'r Bil, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; a<br>(ii) nodi unrhyw ddarpariaethau na fyddent, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a'r rhesymau dros y farn honno. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.5 | Rhaid i Fil gael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg ac eithrio yn yr achosion canlynol: | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | (i) os yw'r Aelod sy'n gyfrifol amdano yn datgan mewn ysgrifen, mewn perthynas â Bil llywodraeth, na fyddai, am resymau penodedig, yn briodol o dan yr amgylchiadau neu yn rhesymol ymarferol i'r Bil gael ei gyflwyno yn y ddwy iaith; neu<br>(ii) os nad yw gwneud hynny yn cyd-fynd â phenderfyniadau a gyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26.3. | |
| | **Dogfennau i Gyd-fynd â Bil** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.6 | Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:<br>(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;<br>(ii) nodi amcanion polisi y Bil;<br>(iii) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu;<br>(~~iv~~iv) nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil, ac<br>~~ynghyd â chrynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw;~~<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn | **Diwygio'r Rheol Sefydlog:** I weithredu argymhellion 4 a 19(ii) yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol:<br><br>*Argymhelliad 4: ei gwneud yn ofynnol i Femoranda Esboniadol: (i) ddatgan a gafodd Bil ei gyhoeddi fel drafft llawn neu ddrafft rhannol, ac os mai rhannau ohono sy'n ddrafft, pa rannau yw'r rheini; (ii) crynodeb manwl o sut y mae Bil a gyflwynwyd wedi ei ddiwygio ers y Bil drafft, a'r rhesymau dros* |

| | | |
|---|---|---|
| | rhannol, pa rannau);<br>(v) nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio;<br>(vi) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;<br>(~~v~~vii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;<br>(~~vi~~viii) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br>(~~b~~d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r ~~costau~~ holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br>(~~c~~e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;<br>(ix) unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;<br>(~~vii~~x) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi | *unrhyw newidiadau a fabwysiadwyd; (iii) y rhesymau, os yn berthnasol, am beidio â chyhoeddi Bil ar ffurf drafft.*<br><br>*Argymhelliad 19 (ii) yr awgrymiadau a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynglŷn â sut y gellid gwella Rheol Sefydlog 26.6(vi) i ddarparu gwybodaeth ariannol cliriach;*<br><br>Mae'r Rheol Sefydlog ddiwygiedig yn cynnwys y gofynion ychwanegol a nodir yn y tabl a ddarparwyd yn y dystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, o ran rhoi crynodeb o amcangyfrif y costau. |

| | | |
|---|---|---|
| | pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br>(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); a~~c~~<br>(~~viii~~xi)os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio. | |
| 26.6A | Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddatgan lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26.6, drwy gyfrwng mynegai neu mewn rhyw ffordd arall. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**: I weithredu Argymhelliad 19(i) yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: *cynnwys gofyniad bod yr* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Aelod sy'n gyfrifol yn dangos yn glir ble yn y Memorandwm Esboniadol y ceir hyd i ofynion y Rheol Sefydlog (er enghraifft, trwy gyfrwng mynegai priodol);* |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd:** I weithredu Argymhelliad 19 (iv) yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: *cynnwys gofyniad bod yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil yn darparu tabl tarddiadau.* |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd:** I weithredu Argymhelliad 20 yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: *i ddiwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol bod Atodlenni Keeling ar gael i gyd-fynd â Bil pan gaiff ei gyflwyno (os yw'n cynnig diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol).*<br><br>Ar gais y Gweinidog, ni fydd y ddarpariaeth ond yn gymwys pan fo Bil yn diwygio |

| | | |
|---|---|---|
| | | deddfwriaeth bresennol yn sylweddol. Cymerir bod 'sylweddol' yn y cyd-destun hwn yn golygu bod diwygiadau sylweddol ac o sylwedd yn cael eu gwneud i Ddeddf neu fwy nag un Ddeddf. |
| | **Yr Amserlen ar gyfer Ystyried Bil** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.7 | Rhaid i'r Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer ystyried Bil, ac eithrio unrhyw gyfnod a gymerir yn y cyfarfod llawn (y mae'n rhaid ei drefnu o dan ddarpariaethau Rheolau Sefydlog 11.12 neu 11.7(ii), yn ôl fel y digwydd). | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.8 | Caiff y Pwyllgor Busnes wneud unrhyw newidiadau dilynol mewn amserlen a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 26.7 ag y gwêl yn dda ond rhaid iddo roi rhesymau dros y newidiadau hynny. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| | **Cyfnod 1: Ystyried yr Egwyddorion Cyffredinol** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.9 | Pan fydd Bil wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Pwyllgor Busnes benderfynu a ddylid cyfeirio'r ystyriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol at bwyllgor cyfrifol (y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26 fel "y pwyllgor cyfrifol") a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 16.1 neu beidio. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26.10 | Os bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno o dan Reol Sefydlog 26.9 i gyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol hwnnw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| <u>26.10A</u> | <u>Os bydd y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 26.9 yn penderfynu peidio â chyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol, rhaid iddo gyhoeddi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw o fewn dau ddiwrnod gwaith.</u> | **Rheol Sefydlog newydd:** I weithredu Argymhelliad 26 (i) yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: *ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes gyhoeddi'r rhesymau dros ei benderfyniad o dan Reol Sefydlog 26.9 i ganiatáu Bil i osgoi'r broses graffu Cyfnod 1 mewn pwyllgor, cyn pen 2 ddiwrnod gwaith ar ôl gwneud y penderfyniad hwnnw;* |
| 26.11 | Heb fod yn gynharach na phum diwrnod gwaith ar ôl naill ai:<br>(i) i bwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil; neu<br>(ii) y dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad,<br>caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gynnig y dylai'r Cynulliad gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26.12 | Os bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu peidio â chyfeirio'r ystyriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol at bwyllgor cyfrifol, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol amdano gynnig y dylai'r Cynulliad gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.13 | Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil o dan Reolau Sefydlog 26.11, 26.12, 26.83 neu 26.102, mae'r Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.14 | Os na fydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil o dan Reolau Sefydlog 26.11, 26.12, 26.83 neu 26.102, mae'r Bil yn methu. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.15 | Mae Cyfnod 1 ar ben pan gytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil neu pan fydd y Bil yn methu o dan Gyfnod 1. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| | **Cyfnod 2: Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.16 | Mae Cyfnod 2 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 1 ddod i ben. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| ~~26.18~~ <u>26.17</u> | ~~Os yw'r Cynulliad wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil~~ <u>Yng Nghyfnod 2</u>, rhaid i'r Pwyllgor Busnes:<br>(i) cyfeirio'r Bil yn ôl at y pwyllgor cyfrifol ar gyfer trafodion Cyfnod 2; | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – Dim ond os yw'r Cynulliad wedi cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol y gall y Bil fod yng Nghyfnod 2, felly nid oes angen ailddatgan rhan gyntaf y |

| | | |
|---|---|---|
| | (ii) cyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol ar gyfer trafodion Cyfnod 2 os cytunodd y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 26.9 i beidio â chyfeirio'r ystyriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol at bwyllgor cyfrifol; neu<br>(iii) cynnig, drwy gyfrwng cynnig yn y cyfarfod llawn, y dylai trafodion Cyfnod 2 gael eu hystyried gan Bwyllgor o'r Cynulliad cyfan i'w gadeirio gan y Llywydd. Dim ond er mwyn arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 y caniateir i'r Llywydd neu'r Dirprwy bleidleisio mewn trafodion o'r fath. | Rheol Sefydlog. Cynigir hefyd y dylai'r Rheol Sefydlog hon ddod cyn Rheol Sefydlog 26.17, h.y. diffinio'r Pwyllgor sy'n gyfrifol yn gyntaf, ac yna darparu ar gyfer y cyfyngiadau ar ba bryd y gall gwrdd i ystyried gwelliannau. |
| ~~26.17~~<br>26.18 | Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Cyfnod 2 a dyddiad y cyfarfod cyntaf y bydd y pwyllgor cyfrifol yn ystyried gwelliannau i'r Bil. | **Ailrifo'r Rheol Sefydlog** |
| ~~26.18~~ | ~~Os yw'r Cynulliad wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, rhaid i'r Pwyllgor Busnes:~~<br>~~(i) cyfeirio'r Bil yn ôl at y pwyllgor cyfrifol ar gyfer trafodion Cyfnod 2;~~<br>~~(ii) cyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol ar gyfer trafodion Cyfnod 2 os cytunodd y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 26.9 i beidio â chyfeirio'r ystyriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol at bwyllgor cyfrifol; neu~~<br>~~(iii) cynnig, drwy gyfrwng cynnig yn y cyfarfod llawn, y dylai trafodion Cyfnod 2 gael eu hystyried gan Bwyllgor o'r~~ | **Symud y Rheol Sefydlog** (bellach yn Rheol Sefydlog 26.17 newydd) |

| | | |
|---|---|---|
| | ~~Cynulliad cyfan i'w gadeirio gan y Llywydd. Dim ond er mwyn arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 y caniateir i'r Llywydd neu'r Dirprwy bleidleisio mewn trafodion o'r fath.~~ | |
| 26.19 | Caniateir i Fil gael ei ddiwygio yn nhrafodion Cyfnod 2. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.20 | Caniateir i welliannau i'w hystyried yn nhrafodion Cyfnod 2 gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o'r diwrnod cyntaf y bydd Cyfnod 2 yn dechrau. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.21 | Mae'r gwelliannau i'w gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil, oni bai bod y pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 wedi penderfynu fel arall. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.22 | Dim ond Aelod sy'n aelod o'r pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 a gaiff gymryd rhan yn y trafodion hynny er mwyn:<br>(i) cynnig gwelliant neu ofyn am gytundeb i dynnu gwelliant yn ôl; neu<br>(ii) pleidleisio. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.23 | Caniateir i welliant, a gyflwynir gan Aelod nad yw'n aelod o'r pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2, gael ei gynnig gan aelod o'r pwyllgor. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26.24 | Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran neu'r atodlen honno wedi'i waredu, ~~rhaid barnu~~ <u>bernir</u> bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran neu'r atodlen honno fel y'i diwygiwyd at ddibenion trafodion Cyfnod 2. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – Er eglurder. Mae'r geiriad presennol yn awgrymu **nad yw'r** Pwyllgor wedi gwneud penderfyniad hyd yma, ond yn ymarferol cytunwyd eisoes ar yr adran neu'r atodlen. |
| 26.25 | Os na chyflwynir gwelliant i adran o'r Bil neu atodlen iddo, bernir bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran neu'r atodlen honno at ddibenion trafodion Cyfnod 2. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.26 | Mae Cyfnod 2 ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i gwblhau neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i chytuno, pa un bynnag yw'r olaf. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.27 | Os caiff Bil ei ddiwygio yn nhrafodion Cyfnod 2 rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.28 | Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol diwygiedig a gaiff ei baratoi o dan Reol Sefydlog 26.27 gael ei osod o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Cyfnod 3. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cyfnod 3: Ystyriaeth Fanwl gan y Cynulliad** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.29 | Mae Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.30 | Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Cyfnod 3 a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Cyfnod 3. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.31 | Rhaid i drafodion Cyfnod 3 ar Fil gael eu hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.32 | Caniateir i Fil gael ei ddiwygio yn nhrafodion Cyfnod 3. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.33 | Caniateir i welliannau i'w hystyried yn nhrafodion Cyfnod 3 gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o'r diwrnod cyntaf y bydd Cyfnod 3 yn dechrau. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.34 | Caiff y Llywydd ddethol y gwelliannau hynny yr ymdrinnir â hwy yn nhrafodion Cyfnod 3. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.35 | O dan amgylchiadau eithriadol, caiff y Llywydd dderbyn gwelliant yn nhrafodion Cyfnod 3 y rhoddwyd llai o hysbysiad ohono na'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.59. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfeirir at welliant o'r fath fel "gwelliant hwyr". | |
| 26.36 | Mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil, oni bai bod y Cynulliad wedi penderfynu fel arall drwy gynnig gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth neu'r Pwyllgor Busnes (yn unol â Rheolau Sefydlog 11.12 neu 11.7(ii) yn ôl fel y digwydd). | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.37 | Drwy gynnig gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth neu gan y Pwyllgor Busnes (yn unol â Rheolau Sefydlog 11.12 neu 11.7(ii) yn ôl fel y digwydd), caiff y Cynulliad gytuno ar un neu fwy o derfynau amser sydd i fod yn gymwys mewn dadleuon ar welliannau (fel y maent wedi'u grwpio gan y Llywydd). | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.38 | Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.37, rhaid i'r dadleuon ar y grwpiau hynny o welliannau gael eu gorffen erbyn y terfynau amser a bennwyd yn y cynnig, ac eithrio i'r graddau y mae'r Llywydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol:<br>(i) am fod peidio â chynnig gwelliant wedi arwain at newid trefn trafod y grwpiau; neu<br>(ii) i atal unrhyw ddadl ar grŵp o welliannau sydd eisoes wedi dechrau pan gyrhaeddir y terfyn amser rhag cael ei | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | chwtogi'n afresymol. | |
| 26.39 | Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yng Nghyfnod 3 wedi'u gwaredu, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol, neu unrhyw aelod o'r llywodraeth, heb hysbysiad, gynnig bod y Cynulliad yn ystyried rhagor o welliannau mewn trafodion Cyfnod 3 pellach. Ni chaniateir trafod cynnig o'r fath na'i ddiwygio. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.40 | Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.39, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, neu unrhyw aelod o'r llywodraeth, gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w cynnig yn y trafodion Cyfnod 3 pellach. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.41 | Yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26.61, dim ond os ydynt wedi'u bwriadu i egluro darpariaeth mewn Bil (gan gynnwys sicrhau cysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg) neu i weithredu ymrwymiadau a roddwyd yn nhrafodion cynharach Cyfnod 3 y mae gwelliannau o dan Reol Sefydlog 26.40 yn dderbyniadwy. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.42 | Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran neu'r atodlen honno wedi'i waredu, ~~rhaid barnu~~ <u>bernir</u> bod y Cynulliad wedi derbyn yr adran neu'r atodlen honno fel y'i diwygiwyd neu fel arall at | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – Er eglurder. Mae'r geiriad presennol yn awgrymu **nad yw'r** Pwyllgor wedi gwneud penderfyniad hyd yma, ond yn ymarferol cytunwyd eisoes |

| | | |
|---|---|---|
| | ddibenion trafodion Cyfnod 3. | ar yr adran neu'r atodlen. |
| 26.43 | Os na chyflwynir gwelliant i adran o'r Bil neu atodlen iddo, bernir bod y Cynulliad wedi derbyn yr adran neu'r atodlen honno at ddibenion trafodion Cyfnod 3. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.44 | Mae Cyfnod 3 ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i derbyn, pa un bynnag yw'r olaf. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| | **Y Cyfnod Adrodd** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.45 | Pan fydd Cyfnod 3 ar ben yn unol â Rheol Sefydlog 26.44, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol, heb hysbysiad, gynnig bod y Cynulliad yn ystyried gwelliannau yn y Cyfnod Adrodd. Caniateir trafod cynnig o'r fath ond ni chaniateir ei ddiwygio. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| <u>26.45A</u> | <u>Mae'r Cyfnod Adrodd yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i gynnig o dan Reol Sefydlog 26.45 gael ei dderbyn gan y Cynulliad.</u> | **Rheol Sefydlog newydd** – mae'r newid hwn yn ei gwneud yn eglur pryd y mae'r Cyfnod Adrodd yn dechrau, pan fydd y Cynulliad yn penderfynu cael un, ac mae'n ganlyniadol i'r newid i Reol Sefydlog 26.46 isod, sy'n golygu nad yw'r Rheol Sefydlog sy'n ymwneud â Chyfnod 3 yn gymwys mwyach |

| | | |
|---|---|---|
| | | gan y nodwyd bod hynny'n aneglur. |
| 26.46 | Mae Rheolau Sefydlog 26.~~29~~30 i 26.44 yn gymwys i drafodion y Cyfnod Adrodd. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Cyfnod 3" a "Cyfnod 3 pellach" yn gyfeiriadau at "y Cyfnod Adrodd" a "y Cyfnod Adrodd pellach" yn unol â hynny. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – Mae Rheol Sefydlog 26.29 yn datgan bod Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 gael ei gwblhau, hyd yn oed os na chytunwyd i'r Cyfnod Adrodd. Mae hyn hefyd yn golygu, o gymryd y Rheol Sefydlog yn llythrennol, y byddai'r Cyfnod Adrodd yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl Cyfnod 2 (er na all hynny ddigwydd). Felly cafwyd gwared ar y cyfeiriad at Reol Sefydlog 26.29 o'r Rheol Sefydlog hon, ac mae Rheol Sefydlog ganlyniadol newydd isod yn nodi pryd y bydd Cyfnod Adrodd yn dechrau. |
| 26.46A | Os caiff Bil ei ddiwygio yn nhrafodion Cyfnod 3, ac os bydd y Cynulliad yn cytuno i ystyried gwelliannau yn y Cyfnod Adrodd, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y Cynulliad yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.46B | Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol diwygiedig a gaiff ei | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | baratoi o dan Reol Sefydlog 26.46A gael ei osod o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Adrodd. | |
| | **Cyfnod 4: Y Cyfnod Terfynol** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.47 | Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i basio Bil, ac ni chaiff ei ystyried hyd nes bydd o leiaf bum niwrnod gwaith wedi mynd heibio ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3, neu drafodion y Cyfnod Adrodd, os cawsant eu cynnal. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.47A | Rhaid cyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 26.47 o leiaf un diwrnod gwaith cyn y caiff ei drafod. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.48 | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26.50, yn union ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3, neu drafodion y Cyfnod Adrodd os y'u cynhaliwyd, caiff unrhyw Aelod, gyda chytundeb y Llywydd, gynnig heb hysbysiad bod y Bil yn cael ei basio. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.49 | Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig y dylai Bil gael ei basio. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.50 | Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil yn cael ei basio oni bai bod testun y Bil ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26.51 | Ni chaniateir gwneud cynnig o dan Reol Sefydlog 12.31(ii) mewn unrhyw drafodion Cyfnod 4. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| | **Ailystyried Biliau a Basiwyd** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.52 | Yn unol ag adran 113 o'r Ddeddf, ar ôl i'r Bil gael ei basio, caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo:<br>(i) os oes cwestiwn wedi'i gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o'r Ddeddf; a<br>(ii) os oes cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol gan Lys Ewrop (o fewn ystyr adran 113(1)(b) o'r Ddeddf) wedi'i wneud gan y Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r cyfeiriad hwnnw; a<br>(iii) os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall wedi'i benderfynu neu wedi'i waredu fel arall. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog –** er mwyn sicrhau bod y Rheolau Sefydlog hyn ynghylch y Cyfnod Ailystyried yn eglur.<br><br>Yn unol ag adran 111(6)(b) o'r Ddeddf, gellir ailystyried Bil ar ôl ei basio mewn tair sefyllfa. Ymdrinnir â'r cyntaf o'r rhain gan Reol Sefydlog 26.52 – yn achos Bil a gyfeiriwyd at y Goruchaf Lys ac a gyfeirir yn ddiweddarach at Lys Cyfiawnder Ewrop i gael dyfarniad rhagarweiniol. Yn yr achos hwn rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol bod y Cynulliad yn bwriadu ailystyried y Bil – gweler 26.52A isod – a rhaid i'r person a gyfeiriodd y Bil yn wreiddiol dynnu'r cyfeiriad hwnnw yn ôl – gweler Rheol Sefydlog 26.52B isod – cyn y gall y Cyfnod Ailystyried ddechrau. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nid yw holl ddarpariaethau'r Ddeddf yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y Rheolau Sefydlog presennol, ac mae'r diwygiadau drafft yn ceisio unioni'r pethau hynny sydd wedi'u hepgor.<br><br>Gellir hefyd ailystyried os bydd y Goruchaf Lys wedi dyfarnu, wedi i Fil gael ei gyfeirio ato, nad yw'r Bil neu unrhyw ddarpariaeth oddi mewn iddo o fewn cymhwysedd, neu os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 114. Ymdrinnir â'r ddwy sefyllfa hyn gan **Reol Sefydlog 26.53** a **26.53A** isod. |
| 26.52A | <u>Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.52 gan y Cynulliad, rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol am y ffaith honno.</u> | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae’n adlewyrchu darpariaethau’r Ddeddf yn well, er eglurder. |
| 26.52B | <u>Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26.52, bydd y Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl tynnu'r cyfeiriad a wnaed mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 yn ôl yn dilyn cais am dynnu'r cyfeiriad yn ôl o dan adran 113(2)b o'r Ddeddf.</u> | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Fel uchod - o dan amgylchiadau Rheol Sefydlog 26.52, ni all Cyfnod Ailystyried ond dechrau yn unol â darpariaethau'r Ddeddf. |

| | | |
|---|---|---|
| 26.53 | Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil:<br>(i) os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu <u>ynglŷn â chyfeiriad a wnaed mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 o'r Ddeddf</u> na fyddai'r Bil neu unrhyw ddarpariaeth ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu<br>(ii) os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil o dan adran 114 o'r Ddeddf. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Fel uchod – yr ail a'r drydedd sefyllfa lle y gellir cymryd Cyfnod Ailystyried. |
| 26.53A | ~~Mae'r~~ <u>Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26.53, mae'r</u> Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl <u>i'r cynnig hwnnw</u>~~i gynnig~~ ~~a wneir o dan Reol Sefydlog 26.52 neu 26.53~~ gael ei dderbyn gan y Cynulliad. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Fel uchod. |
| ~~26.53B~~ | ~~Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau'r Cyfnod Ailystyried a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Ailystyried.~~ | **Dileu'r Rheol Sefydlog**<br><br>Darpariaeth wedi'i chynnwys yn Rheol Sefydlog 26.54 isod |
| 26.54 | ~~Rhaid i'r trafodion yn y Cyfnod Ailystyried gael eu hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.~~<br><u>Mae Rheolau Sefydlog 26.30 i 26.34 a 26.36 i 26.44 yn gymwys i drafodion y Cyfnod Ailystyried. Dylid dehongli</u> | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – er mwyn eglurder a chysondeb – i'w gwneud yn eglur y byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Cyfnod 3 hefyd yn berthnasol i'r Cyfnod |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfeiriadau at "Cyfnod 3" a "Cyfnod 3 pellach" yn gyfeiriadau at "y Cyfnod Ailystyried" a "y Cyfnod Ailystyried pellach" yn unol â hynny. | Ailystyried. Mae'r Rheol Sefydlog hon yn crynhoi'r Rheolau Sefydlog sy'n gymwys i'r Cyfnod Ailystyried fel y byddent ar gyfer Cyfnod 3. Mae geiriad gwreiddiol 26.54 wedi'i ddileu, ond caiff ei gwmpasu gan Reol Sefydlog 26.31. Ni chaniateir gwelliannau hwyr yn y cyfnod hwn, felly nid yw Rheol Sefydlog 26.35 wedi'i gynnwys. |
| 26.55 | Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil yn y Cyfnod Ailystyried oni bai bod y gwelliannau, yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26.61, ac ym marn y Llywydd, wedi'u bwriadu dim ond i ddatrys y mater sy'n destun y canlynol:<br>(i) y cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol;<br>(ii) penderfyniad y Goruchaf Lys; neu<br>(iii) y Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.56 | Yn syth ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod Ailystyried, caiff unrhyw Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Cynulliad yn cymeradwyo Bil a ddiwygiwyd wrth gael ei ailystyried. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| | **Darpariaethau Cyffredinol mewn Perthynas â Gwelliannau i Filiau** | **Cadw'r Is-bennawd** |

| | | |
|---|---|---|
| 26.57 | Mae Rheolau Sefydlog 26.58 i 26.66 yn gymwys i welliannau yn nhrafodion Cyfnod 2, trafodion Cyfnod 3, trafodion y Cyfnod Adrodd, neu yn y Cyfnod Ailystyried. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.58 | Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar ffurf briodol gwelliannau i Fil. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.59 | Ni chaniateir ystyried gwelliant, ac eithrio gwelliant hwyr, oni bai ei fod wedi'i gyflwyno <u>o leiaf</u> bum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei ystyried. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – er mwyn bod yn eglur ac yn gyson â Rheolau Sefydlog eraill. Heb y newid hwn byddai'r Rheol Sefydlog yn golygu na ellid cyflwyno gwelliannau *yn gynharach* na 5 diwrnod gwaith cyn eu hystyried. |
| 26.60 | Caiff unrhyw Aelod ychwanegu ei enw i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) drwy hysbysu'r Clerc ar unrhyw adeg hyd at ddiwedd y diwrnod gwaith cyn bod y gwelliant i fod i gael ei ystyried. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.61 | Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy:<br>(i) os nad yw ar ei ffurf briodol yn unol â Rheol Sefydlog 26.58;<br>(ii) os nad yw'n berthnasol i'r Bil neu ddarpariaethau'r Bil y byddai'n ei ddiwygio; | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | (iii) os yw'n anghyson ag egwyddorion cyffredinol y Bil fel y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad; neu<br>(iv) os yw'n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud yn y Cyfnod pryd y mae'r gwelliant yn cael ei gynnig. | |
| 26.62 | Caniateir cyflwyno gwelliant i welliant ac, o'i ddethol, rhaid iddo gael ei waredu cyn y gwelliant y byddai'n ei ddiwygio, a rhaid i Reolau Sefydlog 26.57 i 26.66 fod yn gymwys yn unol â hynny. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.63 | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26.22, caniateir i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a'i cyflwynodd ar unrhyw adeg cyn y diwrnod y mae'n cael ei ystyried ond dim ond gyda chytundeb unfrydol unrhyw Aelodau sydd wedi ychwanegu eu henwau i'r gwelliant. Os na sicrheir cytundeb o'r fath, daw'r gwelliant yn welliant yn enw'r Aelod cyntaf a ychwanegodd ei enw i'r gwelliant ac nad yw'n cytuno i'r gwelliant gael ei dynnu'n ôl. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.64 | Caiff cadeirydd pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd, grwpio gwelliannau at ddibenion dadleuon fel y gwêl yn dda. Ni chaniateir i welliant a drafodwyd fel rhan o grŵp gael ei drafod eto pan ddaw'n amser ei waredu. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26.65 | Os na fydd Aelod a gyflwynodd welliant yn cynnig y gwelliant pan ddaw'n amser trafod y gwelliant hwnnw, caniateir i'r gwelliant gael ei gynnig:<br>(i) mewn pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2, gan aelod o'r pwyllgor hwnnw; neu<br>(ii) mewn trafodion Cyfnod 3, trafodion y Cyfnod Adrodd, neu yn y Cyfnod Ailystyried, gan unrhyw Aelod arall. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.66 | Caniateir i welliant sydd wedi'i gynnig gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a'i cynigiodd, ond dim ond:<br>(i) mewn pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2, os na fydd aelod o'r pwyllgor hwnnw yn gwrthwynebu; neu<br>(ii) mewn trafodion Cyfnod 3, trafodion y Cyfnod Adrodd, neu yn y Cyfnod Ailystyried, os na fydd Aelod yn gwrthwynebu. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| | **Cydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.67 | Os yw Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'n cael ei chynnwys mewn Bil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Mawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Cynulliad beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) nes bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – er eglurder ac i ganiatáu ar gyfer gwahanu trafodion Cyfnod 3 a Chyfnod 4: gall aelod o'r llywodraeth ddynodi cydsyniad *ar unrhyw adeg* mewn cyfarfod o'r Cynulliad, cyn y ddadl Cyfnod 4, ac nid dim ond yn ystod trafodion Cyfnod 3/y Cyfnod Adrodd ar y Bil hwnnw. |

| | | |
|---|---|---|
| | ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth ~~yn ystod y trafodion ar y Bil~~ mewn cyfarfod o'r Cynulliad. | |
| | **Penderfyniadau Ariannol** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.68 | Rhaid i'r Llywydd benderfynu ym mhob achos a oes angen penderfyniad ariannol ar gyfer Bil o dan Reolau Sefydlog 26.69 i 26.74. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.69 | Os yw Bil yn cynnwys darpariaeth:<br>(i) sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru; neu<br>(ii) y byddai ei heffaith debygol yn arwain at:<br>(a) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant a godir ar y Gronfa honno;<br>(b) gwariant arwyddocaol sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben newydd; neu<br>(c) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben presennol,<br>ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil mewn unrhyw Gyfnod ar ôl Cyfnod 1 oni bai bod y Cynulliad wedi cytuno, drwy benderfyniad ariannol, y caniateir i'r gwariant neu'r cynnydd yn y gwariant gael ei godi o'r Gronfa honno neu, yn ôl fel y digwydd, ei dalu ohoni. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.70 | Os yw: | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | (i) Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n gosod neu'n cynyddu (neu sy'n rhoi pŵer i osod neu i gynyddu) unrhyw dâl, neu fel arall yn ei gwneud yn ofynnol (neu'n rhoi pŵer i'w gwneud yn ofynnol) i unrhyw daliad gael ei wneud; a<br>(ii) yn ofynnol, gan neu o dan adran 120(1) o'r Ddeddf, i'r person y mae'r tâl neu'r taliad yn daladwy iddo dalu symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol Cymru (neu os byddai'n ofynnol gwneud hynny heblaw am unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan adran 120(2)),<br>ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil mewn unrhyw Gyfnod ar ôl Cyfnod 1 oni bai bod y Cynulliad, drwy benderfyniad ariannol, wedi cytuno ar y tâl, y cynnydd neu'r taliad. | |
| 26.71 | Mewn perthynas â Rheol Sefydlog 26.70:<br>(i) bydd yn gymwys dim ond os yw'r tâl, y cynnydd yn y tâl neu'r taliad yn arwyddocaol; a<br>(ii) ni fydd yn gymwys os yw'r tâl, y cynnydd yn y tâl neu'r taliad:<br>(a) yn ymwneud â darparu nwyddau ac yn rhesymol o'i gymharu â'r nwyddau a ddarperir; neu<br>(b) wedi'i gyfeirio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at adennill cost darparu unrhyw wasanaeth y mae'r tâl yn cael ei osod ar ei gyfer neu y mae'n ofynnol gwneud y taliad ar ei gyfer. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26.72 | Os byddai gwelliant (neu welliannau) i Fil, o'i dderbyn (neu o'u derbyn), yn golygu y byddai angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil hwnnw na fyddai ei angen fel arall, ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y gwelliant (neu'r gwelliannau) oni bai bod y Cynulliad wedi derbyn cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol o'r fath. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.73 | Dim ond aelod o'r llywodraeth a gaiff wneud cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.74 | Oni bai:<br>(i) bod hysbysiad ynglŷn â chynnig ar gyfer unrhyw benderfyniad ariannol y gofynnir amdano mewn perthynas â Bil gan Reol Sefydlog 26.69 neu 26.70 yn cael ei gyflwyno o fewn chwe mis ar ôl cwblhau Cyfnod 1; a<br>(ii) bod y cynnig yn cael ei dderbyn,<br>mae'r Bil yn methu. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| | **Hysbysu ynghylch Cydsyniad Brenhinol i Ddeddfau'r Cynulliad** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.75 | Rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cynulliad ynglŷn â'r dyddiad y bydd Deddf Cynulliad yn cael Cydsyniad Brenhinol. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| | **Biliau yn Methu, yn Cael eu Gwrthod neu'n Cael eu Tynnu'n ôl** | **Cadw'r Is-bennawd** |

| | | |
|---|---|---|
| 26.76 | Os bydd Bil yn methu neu'n cael ei wrthod gan y Cynulliad, rhaid peidio â chymryd dim trafodion pellach ar y Bil hwnnw a rhaid peidio â chyflwyno Bil sydd, ym marn y Llywydd, yn yr un telerau neu delerau tebyg, yn yr un Cynulliad o fewn y cyfnod o chwe mis ar ôl y dyddiad y methodd y Bil neu y cafodd ei wrthod. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.77 | Mae Bil yn methu os nad yw wedi'i basio neu wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad cyn diwedd y Cynulliad y'i cyflwynwyd ynddo. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.78 | Bydd cymeradwyaeth i gyflwyno Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.91 yn peidio â bod pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.79 | Caniateir i Fil gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano ond rhaid peidio â'i dynnu'n ôl ar ôl i Gyfnod 1 gael ei gwblhau ac eithrio gyda chytundeb y Cynulliad. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| | **Biliau Pwyllgor** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.80 | Mae Rheolau Sefydlog 26.81 i 26.83 yn gymwys i Filiau pwyllgor yn unig. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.81 | Caiff unrhyw bwyllgor gyflwyno Bil pwyllgor sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y pwyllgor. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26.82 | Nid yw Rheolau Sefydlog 26.9 i 26.12 yn gymwys i Filiau pwyllgor. | **Cadw’r Rheol Sefydlog** |
| 26.83 | Yng Nghyfnod 1, caiff yr Aelod sy’n gyfrifol am Fil pwyllgor gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. | **Cadw’r Rheol Sefydlog** |
| | **Biliau’r Comisiwn** | **Cadw’r Is-bennawd** |
| 26.84 | Caiff y Comisiwn gyflwyno Bil sy’n ymwneud â swyddogaethau’r Comisiwn. | **Cadw’r Rheol Sefydlog** |
| | **Biliau Aelod** | **Cadw’r Is-bennawd** |
| 26.85 | Mae Rheolau Sefydlog 26.86 i 26.94 yn gymwys i Filiau Aelod yn unig. | **Cadw’r Rheol Sefydlog** |
| 26.86 | [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Cynulliad ar 16 Tachwedd 2011] | |
| 26.87 | O bryd i’w gilydd, rhaid i’r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o’r llywodraeth a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod. | **Cadw’r Rheol Sefydlog** |
| 26.88 | Rhaid i’r Llywydd gynnwys yn y balot enwau’r holl Aelodau | **Cadw’r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | hynny sydd wedi gwneud cais am gael eu cynnwys ac sydd wedi cyflwyno'r wybodaeth cyn y balot sy'n angenrheidiol o dan Reol Sefydlog 26.90. | |
| 26.89 | Ni chaiff Aelod sydd wedi ennill y balot o'r blaen yn y Cynulliad hwnnw wneud cais o'r fath. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.90 | Yr wybodaeth sy'n angenrheidiol cyn y balot yw:<br>(i) teitl arfaethedig y Bil; a<br>(ii) Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo gynnwys:<br>(a) amcanion polisi y Bil; a<br>(b) manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.91 | O fewn 25 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot, caiff Aelod sy'n llwyddo mewn balot gyflwyno cynnig sy'n gofyn i'r Cynulliad gytuno iddo gyflwyno Bil Aelod er mwyn i'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 26.90 gael ei rhoi ar waith. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.92 | Rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26.91 o fewn 35 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y balot (heb gyfrif dyddiau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Cynulliad yn eistedd). | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26.93 | Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91, caiff yr Aelod sydd wedi cael cytundeb i gyflwyno Bil, o fewn naw mis i dderbyn y cynnig, gyflwyno Bil er mwyn i'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 26.90 gael ei rhoi ar waith. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.94 | Os gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91, ni chaiff Aelod ymuno ag unrhyw falot a gynhelir o dan Reol Sefydlog 26.87 am gyfnod o chwe mis ar ôl gwrthod y cynnig os yw amcanion polisi y Bil y mae'n ceisio cytundeb i'w gyflwyno yr un fath i raddau helaeth ag amcanion polisi y Bil y cyfeiriwyd ato yn y cynnig a wrthodwyd. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| | **Biliau Brys Llywodraeth** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26.95 | Os yw'n ymddangos i aelod o'r llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil llywodraeth, a gyflwynir yn y Cynulliad, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.95A | Rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu datganiad i gyd-fynd â chynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 a rhaid i'r datganiad hwn egluro:<br>i) pam y dylid ymdrin â'r Bil fel Bil Brys; a<br>ii) amcangyfrif o'r costau a'r canlyniadau eraill os na wneir hynny. | **Rheol Sefydlog newydd** - I weithredu Argymhelliad 26 yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol:<br>*ii) ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol, wrth gyflwyno cynnig yn argymell bod Bil Llywodraeth yn cael ei drin fel Bil Brys y Llywodraeth o dan Reol Sefydlog* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *26.95, gyflwyno datganiad yn esbonio pam y dylid ei drin felly, a'r costau a'r canlyniadau eraill o beidio â gwneud hynny.* |
| 26.96 | Caiff cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 gynnig hefyd y caiff Bil Brys llywodraeth gael ei gyflwyno heb y Memorandwm Esboniadol sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.97 | Pan gyflwynir Bil Brys llywodraeth, rhaid cael datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano i gyd-fynd ag ef, sef datganiad y byddai darpariaethau'r Bil ym marn yr Aelod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.98 | Os yw'r Cynulliad yn cytuno ar gynnig o dan Reol Sefydlog 26.95:<br>(i) rhaid i ddarpariaethau Rheolau Sefydlog 26.99 i 26.104 fod yn gymwys i Fil o'r fath; a<br>(ii) rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano gynnig yr amserlen ar gyfer ystyried Cyfnodau 1 i 4 (neu unrhyw Gyfnod Ailystyried) ar gyfer y Bil Brys arfaethedig llywodraeth. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |
| 26.99 | Caiff cynnig o dan Reol Sefydlog 26.98(ii) gynnig ymdrin â'r holl gyfnodau mewn un diwrnod mewn wythnos eistedd. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26.100 | Caiff yr Aelod sy’n gyfrifol wneud unrhyw newidiadau dilynol mewn amserlen a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 26.98(ii) ag y gwêl yn dda, ond rhaid rhoi rhesymau dros y newidiadau hynny. | **Cadw’r Rheol Sefydlog** |
| 26.101 | Nid yw Rheolau Sefydlog 26.7 i 26.12, 26.16 i 26.18, 26.~~28~~27 i 26.30, 26.45 i 26.46B ~~a 26.46~~, 26.50 a 26.59 yn gymwys mewn perthynas â Bil Brys llywodraeth. | **Diwygio’r Rheol Sefydlog** – I ddatgymhwyso Rheol Sefydlog 26.27 hefyd. Os defnyddir Rheol Sefydlog 26.96 i gytuno nad oes angen Memorandwm Esboniadol wrth gyflwyno, nid yw'n gwneud synnwyr ei gwneud yn ofynnol diweddaru'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2.<br><br>Effaith datgymhwyso Rheol Sefydlog 26.45 ar gyfer Biliau Brys (trafodion y Cyfnod Adrodd), yw datgymhwyso Rheolau Sefydlog 26.46A a B yn ogystal. |
| 26.102 | Yng Nghyfnod 1, rhaid i’r Aelod sy’n gyfrifol amdano gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Brys llywodraeth. | **Cadw’r Rheol Sefydlog** |
| 26.103 | Rhaid i Gyfnod 2 gael ei ystyried gan bwyllgor o’r Cynulliad cyfan a’i gadeirio gan y Llywydd. Caiff y Llywydd a’r Dirprwy bleidleisio mewn trafodaethau o’r fath dim ond wrth | **Cadw’r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | ddefnyddio pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20. | |
| 26.104 | Os yw Aelod yn bwriadu cyflwyno gwelliant i Fil Brys llywodraeth, rhaid i'r Aelod roi unrhyw hysbysiad ynglŷn â'r gwelliant hwnnw y bydd y Llywydd yn penderfynu arno ar gyfer y Cyfnod hwnnw. | **Cadw'r Rheol Sefydlog** |

**Atodiad B**

**RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Cynulliad**

**Ffurf Biliau a Sut i'w Cyflwyno**

26.1 Yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog 26.80 i 26.94 caniateir i Fil gael ei gyflwyno ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd.

26.2 Rhaid i Fil gael ei gyflwyno drwy gael ei osod.

26.3 Rhaid peidio â gosod Bil oni bai ei fod ar y ffurf briodol yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd.

26.4 Pan gyflwynir Bil, rhaid cael datganiad Cymraeg a Saesneg gan y Llywydd i gyd-fynd ag ef a rhaid i'r datganiad hwnnw:

(i) nodi a fyddai darpariaethau'r Bil, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; a

(ii) nodi unrhyw ddarpariaethau na fyddent, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a'r rhesymau dros y farn honno.

26.5 Rhaid i Fil gael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg ac eithrio yn yr achosion canlynol:

(i) os yw'r Aelod sy'n gyfrifol amdano yn datgan mewn ysgrifen, mewn perthynas â Bil llywodraeth, na fyddai, am resymau penodedig, yn briodol o dan yr amgylchiadau neu yn rhesymol ymarferol i'r Bil gael ei gyflwyno yn y ddwy iaith; neu

(ii) os nad yw gwneud hynny yn cyd-fynd â phenderfyniadau a gyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26.3.

**Dogfennau i Gyd-fynd â Bil**

26.6 Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:

(i) datgan y byddai darpariaethau’r Bil, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;

(ii) nodi amcanion polisi y Bil;

(iii) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu’r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu;

(iv) nodi’r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:

(a) amcanion polisi y Bil a’r ffyrdd o’u gwireddu;

(b) manylion y Bil, ac

(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu’n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);

(v) nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio;

(vi) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;

(vii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau’r Bil ei wneud (i’r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi’r wybodaeth arall sy’n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;

(viii) nodi’r amcangyfrifon gorau o’r canlynol:

(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a’r costau gros eraill y byddai darpariaethau’r Bil yn arwain atynt;

(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;

(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;

(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac

(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;

(ix) unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;

(x) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:

(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;

(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac

(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); a

(xi) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio.

26.6A Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddatgan lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26.6, drwy gyfrwng mynegai neu mewn rhyw ffordd arall.

26.6B Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i

gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.

26.6C Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.

**Yr Amserlen ar gyfer Ystyried Bil**

26.7 Rhaid i'r Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer ystyried Bil, ac eithrio unrhyw gyfnod a gymerir yn y cyfarfod llawn (y mae'n rhaid ei drefnu o dan ddarpariaethau Rheolau Sefydlog 11.12 neu 11.7(ii), yn ôl fel y digwydd).

26.8 Caiff y Pwyllgor Busnes wneud unrhyw newidiadau dilynol mewn amserlen a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 26.7 ag y gwêl yn dda ond rhaid iddo roi rhesymau dros y newidiadau hynny.

**Cyfnod 1: Ystyried yr Egwyddorion Cyffredinol**

26.9 Pan fydd Bil wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Pwyllgor Busnes benderfynu a ddylid cyfeirio'r ystyriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol at bwyllgor cyfrifol (y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26 fel "y pwyllgor cyfrifol") a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 16.1 neu beidio.

26.10 Os bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno o dan Reol Sefydlog 26.9 i gyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol hwnnw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt.

26.10A Os bydd y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 26.9 yn penderfynu peidio â chyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol, rhaid iddo gyhoeddi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw o fewn dau ddiwrnod gwaith.

26.11 Heb fod yn gynharach na phum diwrnod gwaith ar ôl naill ai:

(i) i bwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil; neu

(ii) y dyddiad cau erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad,

caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gynnig y dylai'r Cynulliad gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

26.12 Os bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu peidio â chyfeirio'r ystyriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol at bwyllgor cyfrifol, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol amdano gynnig y dylai'r Cynulliad gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

26.13 Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil o dan Reolau Sefydlog 26.11, 26.12, 26.83 neu 26.102, mae'r Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2.

26.14 Os na fydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil o dan Reolau Sefydlog 26.11, 26.12, 26.83 neu 26.102, mae'r Bil yn methu.

26.15 Mae Cyfnod 1 ar ben pan gytunir ar egwyddorion cyffredinol y Bil neu pan fydd y Bil yn methu o dan Gyfnod 1.

**Cyfnod 2: Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor**

26.16 Mae Cyfnod 2 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 1 ddod i ben.

26.17 Yng Nghyfnod 2, rhaid i'r Pwyllgor Busnes:

(i) cyfeirio'r Bil yn ôl at y pwyllgor cyfrifol ar gyfer trafodion Cyfnod 2;

(ii) cyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol ar gyfer trafodion Cyfnod 2 os cytunodd y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 26.9 i beidio â chyfeirio'r ystyriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol at bwyllgor cyfrifol; neu

(iii) cynnig, drwy gyfrwng cynnig yn y cyfarfod llawn, y dylai trafodion Cyfnod 2 gael eu hystyried gan Bwyllgor o'r Cynulliad cyfan i'w gadeirio gan y Llywydd. Dim ond er

mwyn arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 y caniateir i'r Llywydd neu'r Dirprwy bleidleisio mewn trafodion o'r fath.

26.18 Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Cyfnod 2 a dyddiad y cyfarfod cyntaf y bydd y pwyllgor cyfrifol yn ystyried gwelliannau i'r Bil.

26.19 Caniateir i Fil gael ei ddiwygio yn nhrafodion Cyfnod 2.

26.20 Caniateir i welliannau i'w hystyried yn nhrafodion Cyfnod 2 gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o'r diwrnod cyntaf y bydd Cyfnod 2 yn dechrau.

26.21 Mae'r gwelliannau i'w gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil, oni bai bod y pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 wedi penderfynu fel arall.

26.22 Dim ond Aelod sy'n aelod o'r pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 a gaiff gymryd rhan yn y trafodion hynny er mwyn:

(i) cynnig gwelliant neu ofyn am gytundeb i dynnu gwelliant yn ôl; neu

(ii) pleidleisio.

26.23 Caniateir i welliant, a gyflwynir gan Aelod nad yw'n aelod o'r pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2, gael ei gynnig gan aelod o'r pwyllgor.

26.24 Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran neu'r atodlen honno wedi'i waredu, bernir bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran neu'r atodlen honno fel y'i diwygiwyd at ddibenion trafodion Cyfnod 2.

26.25 Os na chyflwynir gwelliant i adran o'r Bil neu atodlen iddo, bernir bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran neu'r atodlen honno at ddibenion trafodion Cyfnod 2.

26.26 Mae Cyfnod 2 ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i gwblhau neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i chytuno, pa un bynnag yw'r olaf.

26.27 Os caiff Bil ei ddiwygio yn nhrafodion Cyfnod 2 rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig.

26.28 Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol diwygiedig a gaiff ei baratoi o dan Reol Sefydlog 26.27 gael ei osod o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Cyfnod 3.

**Cyfnod 3: Ystyriaeth Fanwl gan y Cynulliad**

26.29 Mae Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben.

26.30 Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Cyfnod 3 a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Cyfnod 3.

26.31 Rhaid i drafodion Cyfnod 3 ar Fil gael eu hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

26.32 Caniateir i Fil gael ei ddiwygio yn nhrafodion Cyfnod 3.

26.33 Caniateir i welliannau i'w hystyried yn nhrafodion Cyfnod 3 gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o'r diwrnod cyntaf y bydd Cyfnod 3 yn dechrau.

26.34 Caiff y Llywydd ddethol y gwelliannau hynny yr ymdrinnir â hwy yn nhrafodion Cyfnod 3.

26.35 O dan amgylchiadau eithriadol, caiff y Llywydd dderbyn gwelliant yn nhrafodion Cyfnod 3 y rhoddwyd llai o hysbysiad ohono na'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.59. Cyfeirir at welliant o'r fath fel "gwelliant hwyr".

26.36 Mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil, oni bai bod y Cynulliad

wedi penderfynu fel arall drwy gynnig gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth neu'r Pwyllgor Busnes (yn unol â Rheolau Sefydlog 11.12 neu 11.7(ii) yn ôl fel y digwydd).

26.37 Drwy gynnig gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth neu gan y Pwyllgor Busnes (yn unol â Rheolau Sefydlog 11.12 neu 11.7(ii) yn ôl fel y digwydd), caiff y Cynulliad gytuno ar un neu fwy o derfynau amser sydd i fod yn gymwys mewn dadleuon ar welliannau (fel y maent wedi'u grwpio gan y Llywydd).

26.38 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.37, rhaid i'r dadleuon ar y grwpiau hynny o welliannau gael eu gorffen erbyn y terfynau amser a bennwyd yn y cynnig, ac eithrio i'r graddau y mae'r Llywydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol:

(i) am fod peidio â chynnig gwelliant wedi arwain at newid trefn trafod y grwpiau; neu

(ii) i atal unrhyw ddadl ar grŵp o welliannau sydd eisoes wedi dechrau pan gyrhaeddir y terfyn amser rhag cael ei chwtogi'n afresymol.

26.39 Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yng Nghyfnod 3 wedi'u gwaredu, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol, neu unrhyw aelod o'r llywodraeth, heb hysbysiad, gynnig bod y Cynulliad yn ystyried rhagor o welliannau mewn trafodion Cyfnod 3 pellach. Ni chaniateir trafod cynnig o'r fath na'i ddiwygio.

26.40 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.39, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, neu unrhyw aelod o'r llywodraeth, gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w cynnig yn y trafodion Cyfnod 3 pellach.

26.41 Yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26.61, dim ond os ydynt wedi'u bwriadu i egluro darpariaeth mewn Bil (gan gynnwys sicrhau cysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg) neu i weithredu ymrwymiadau a roddwyd yn nhrafodion cynharach Cyfnod 3 y mae gwelliannau o dan Reol Sefydlog 26.40 yn dderbyniadwy.

26.42 Os cyflwynir gwelliant i adran o’r Bil neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i’r adran neu’r atodlen honno wedi’i waredu, bernir bod y Cynulliad wedi derbyn yr adran neu’r atodlen honno fel y’i diwygiwyd neu fel arall at ddibenion trafodion Cyfnod 3.

26.43 Os na chyflwynir gwelliant i adran o’r Bil neu atodlen iddo, bernir bod y Cynulliad wedi derbyn yr adran neu’r atodlen honno at ddibenion trafodion Cyfnod 3.

26.44 Mae Cyfnod 3 ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi’i waredu neu pan fernir bod yr adran neu’r atodlen olaf wedi’i derbyn, pa un bynnag yw’r olaf.

**Y Cyfnod Adrodd**

26.45 Pan fydd Cyfnod 3 ar ben yn unol â Rheol Sefydlog 26.44, caiff yr Aelod sy’n gyfrifol, heb hysbysiad, gynnig bod y Cynulliad yn ystyried gwelliannau yn y Cyfnod Adrodd. Caniateir trafod cynnig o’r fath ond ni chaniateir ei ddiwygio.

26.45A Mae'r Cyfnod Adrodd yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i gynnig o dan Reol Sefydlog 26.45 gael ei dderbyn gan y Cynulliad.

26.46 Mae Rheolau Sefydlog 26.30 i 26.44 yn gymwys i drafodion y Cyfnod Adrodd. Dylid dehongli cyfeiriadau at “Cyfnod 3” a “Cyfnod 3 pellach” yn gyfeiriadau at “y Cyfnod Adrodd” a “y Cyfnod Adrodd pellach” yn unol â hynny.

26.46A Os caiff Bil ei ddiwygio yn nhrafodion Cyfnod 3, ac os bydd y Cynulliad yn cytuno i ystyried gwelliannau yn y Cyfnod Adrodd, rhaid i’r Aelod sy’n gyfrifol baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y Cynulliad yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig.

26.46B Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol diwygiedig a gaiff ei baratoi o dan Reol Sefydlog 26.46A gael ei osod o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Adrodd.

**Cyfnod 4: Y Cyfnod Terfynol**

26.47 Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i basio Bil, ac ni chaiff ei ystyried hyd nes bydd o leiaf bum niwrnod gwaith wedi mynd heibio ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3, neu drafodion y Cyfnod Adrodd, os cawsant eu cynnal.

26.47A Rhaid cyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 26.47 o leiaf un diwrnod gwaith cyn y caiff ei drafod.

26.48 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26.50, yn union ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3, neu drafodion y Cyfnod Adrodd os y'u cynhaliwyd, caiff unrhyw Aelod, gyda chytundeb y Llywydd, gynnig heb hysbysiad bod y Bil yn cael ei basio.

26.49 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig y dylai Bil gael ei basio.

26.50 Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil yn cael ei basio oni bai bod testun y Bil ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

26.51 Ni chaniateir gwneud cynnig o dan Reol Sefydlog 12.31(ii) mewn unrhyw drafodion Cyfnod 4.

**Ailystyried Biliau a Basiwyd**

26.52 Yn unol ag adran 113 o'r Ddeddf, ar ôl i'r Bil gael ei basio, caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo:

(i) os oes cwestiwn wedi'i gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o'r Ddeddf; a

(ii) os oes cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol gan Lys Ewrop (o fewn ystyr adran 113(1)(b) o'r Ddeddf) wedi'i

wneud gan y Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r cyfeiriad hwnnw; a

(iii) os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall wedi'i benderfynu neu wedi'i waredu fel arall.

26.52A Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.52 gan y Cynulliad, rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol am y ffaith honno.

26.52B Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26.52, bydd y Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl tynnu'r cyfeiriad a wnaed mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 yn ôl yn dilyn cais am dynnu'r cyfeiriad yn ôl o dan adran 113(2)b o'r Ddeddf.

26.53 Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil:

(i) os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu ynglŷn â chyfeiriad a wnaed mewn perthynas â’r Bil o dan adran 112 o’r Ddeddf na fyddai'r Bil neu unrhyw ddarpariaeth ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu

(ii) os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26.53A Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26.53, mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r cynnig hwnnw gael ei dderbyn gan y Cynulliad.

26.53B Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau'r Cyfnod Ailystyried a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Ailystyried.

26.54 Mae Rheolau Sefydlog 26.30 i 26.34 a 26.36 i 26.44 yn gymwys i drafodion y Cyfnod Ailystyried. Dylid dehongli cyfeiriadau at “Cyfnod 3” a “Cyfnod 3 pellach” yn gyfeiriadau at “y Cyfnod Ailystyried” a “y Cyfnod Ailystyried pellach” yn unol â hynny.

26.55 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil yn y Cyfnod Ailystyried oni bai bod y gwelliannau, yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26.61, ac ym marn y Llywydd, wedi'u bwriadu dim ond i ddatrys y mater sy'n destun y canlynol:

(i) y cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol;

(ii) penderfyniad y Goruchaf Lys; neu

(iii) y Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26.56 Yn syth ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod Ailystyried, caiff unrhyw Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Cynulliad yn cymeradwyo Bil a ddiwygiwyd wrth gael ei ailystyried. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath.

### Darpariaethau Cyffredinol mewn Perthynas â Gwelliannau i Filiau

26.57 Mae Rheolau Sefydlog 26.58 i 26.66 yn gymwys i welliannau yn nhrafodion Cyfnod 2, trafodion Cyfnod 3, trafodion y Cyfnod Adrodd, neu yn y Cyfnod Ailystyried.

26.58 Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar ffurf briodol gwelliannau i Fil.

26.59 Ni chaniateir ystyried gwelliant, ac eithrio gwelliant hwyr, oni bai ei fod wedi'i gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei ystyried.

26.60 Caiff unrhyw Aelod ychwanegu ei enw i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) drwy hysbysu'r Clerc ar unrhyw adeg hyd at ddiwedd y diwrnod gwaith cyn bod y gwelliant i fod i gael ei ystyried.

26.61 Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy:

(i) os nad yw ar ei ffurf briodol yn unol â Rheol Sefydlog 26.58;

(ii) os nad yw'n berthnasol i'r Bil neu ddarpariaethau'r Bil y byddai'n ei ddiwygio;

(iii) os yw'n anghyson ag egwyddorion cyffredinol y Bil fel y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad; neu

(iv) os yw’n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi’i wneud yn y Cyfnod pryd y mae’r gwelliant yn cael ei gynnig.

26.62 Caniateir cyflwyno gwelliant i welliant ac, o’i ddethol, rhaid iddo gael ei waredu cyn y gwelliant y byddai’n ei ddiwygio, a rhaid i Reolau Sefydlog 26.57 i 26.66 fod yn gymwys yn unol â hynny.

26.63 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26.22, caniateir i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a’i cyflwynodd ar unrhyw adeg cyn y diwrnod y mae’n cael ei ystyried ond dim ond gyda chytundeb unfrydol unrhyw Aelodau sydd wedi ychwanegu eu henwau i’r gwelliant. Os na sicrheir cytundeb o’r fath, daw’r gwelliant yn welliant yn enw’r Aelod cyntaf a ychwanegodd ei enw i’r gwelliant ac nad yw’n cytuno i’r gwelliant gael ei dynnu'n ôl.

26.64 Caiff cadeirydd pwyllgor sy’n ystyried trafodion Cyfnod 2 neu’r Llywydd, yn ôl fel y digwydd, grwpio gwelliannau at ddibenion dadleuon fel y gwêl yn dda. Ni chaniateir i welliant a drafodwyd fel rhan o grŵp gael ei drafod eto pan ddaw’n amser ei waredu.

26.65 Os na fydd Aelod a gyflwynodd welliant yn cynnig y gwelliant pan ddaw’n amser trafod y gwelliant hwnnw, caniateir i’r gwelliant gael ei gynnig:

(i) mewn pwyllgor sy’n ystyried trafodion Cyfnod 2, gan aelod o’r pwyllgor hwnnw; neu

(ii) mewn trafodion Cyfnod 3, trafodion y Cyfnod Adrodd, neu yn y Cyfnod Ailystyried, gan unrhyw Aelod arall.

26.66 Caniateir i welliant sydd wedi’i gynnig gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a’i cynigiodd, ond dim ond:

(i) mewn pwyllgor sy’n ystyried trafodion Cyfnod 2, os na fydd aelod o’r pwyllgor hwnnw yn gwrthwynebu; neu

(ii) mewn trafodion Cyfnod 3, trafodion y Cyfnod Adrodd, neu yn y Cyfnod Ailystyried, os na fydd Aelod yn gwrthwynebu.

## Cydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw

26.67 Os yw Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'n cael ei chynnwys mewn Bil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Mawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Cynulliad beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) nes bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth mewn cyfarfod o'r Cynulliad.

## Penderfyniadau Ariannol

26.68 Rhaid i'r Llywydd benderfynu ym mhob achos a oes angen penderfyniad ariannol ar gyfer Bil o dan Reolau Sefydlog 26.69 i 26.74.

26.69 Os yw Bil yn cynnwys darpariaeth:

(i) sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru; neu

(ii) y byddai ei heffaith debygol yn arwain at:

(a) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant a godir ar y Gronfa honno;

(b) gwariant arwyddocaol sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben newydd; neu

(c) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben presennol,

ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil mewn unrhyw Gyfnod ar ôl Cyfnod 1 oni bai bod y Cynulliad wedi cytuno, drwy benderfyniad ariannol, y caniateir i'r gwariant neu'r cynnydd yn y gwariant gael ei godi o'r Gronfa honno neu, yn ôl fel y digwydd, ei dalu ohoni.

26.70 Os yw:

(i) Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n gosod neu'n cynyddu (neu sy'n rhoi pŵer i osod neu i gynyddu) unrhyw

dâl, neu fel arall yn ei gwneud yn ofynnol (neu'n rhoi pŵer i'w gwneud yn ofynnol) i unrhyw daliad gael ei wneud; a

(ii) yn ofynnol, gan neu o dan adran 120(1) o'r Ddeddf, i'r person y mae'r tâl neu'r taliad yn daladwy iddo dalu symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol Cymru (neu os byddai'n ofynnol gwneud hynny heblaw am unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan adran 120(2)),

ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil mewn unrhyw Gyfnod ar ôl Cyfnod 1 oni bai bod y Cynulliad, drwy benderfyniad ariannol, wedi cytuno ar y tâl, y cynnydd neu'r taliad.

26.71 Mewn perthynas â Rheol Sefydlog 26.70:

(i) bydd yn gymwys dim ond os yw'r tâl, y cynnydd yn y tâl neu'r taliad yn arwyddocaol; a

(ii) ni fydd yn gymwys os yw'r tâl, y cynnydd yn y tâl neu'r taliad:

(a) yn ymwneud â darparu nwyddau ac yn rhesymol o'i gymharu â'r nwyddau a ddarperir; neu

(b) wedi'i gyfeirio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at adennill cost darparu unrhyw wasanaeth y mae'r tâl yn cael ei osod ar ei gyfer neu y mae'n ofynnol gwneud y taliad ar ei gyfer.

26.72 Os byddai gwelliant (neu welliannau) i Fil, o'i dderbyn (neu o'u derbyn), yn golygu y byddai angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil hwnnw na fyddai ei angen fel arall, ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y gwelliant (neu'r gwelliannau) oni bai bod y Cynulliad wedi derbyn cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol o'r fath.

26.73 Dim ond aelod o'r llywodraeth a gaiff wneud cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath.

26.74 Oni bai:

(i) bod hysbysiad ynglŷn â chynnig ar gyfer unrhyw benderfyniad ariannol y gofynnir amdano mewn perthynas â Bil gan Reol Sefydlog 26.69 neu 26.70 yn cael ei gyflwyno o fewn chwe mis ar ôl cwblhau Cyfnod 1; a

(ii) bod y cynnig yn cael ei dderbyn,

mae'r Bil yn methu.

**Hysbysu ynghylch Cydsyniad Brenhinol i Ddeddfau'r Cynulliad**

26.75 Rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cynulliad ynglŷn â'r dyddiad y bydd Deddf Cynulliad yn cael Cydsyniad Brenhinol.

**Biliau yn Methu, yn Cael eu Gwrthod neu'n Cael eu Tynnu'n ôl**

26.76 Os bydd Bil yn methu neu'n cael ei wrthod gan y Cynulliad, rhaid peidio â chymryd dim trafodion pellach ar y Bil hwnnw a rhaid peidio â chyflwyno Bil sydd, ym marn y Llywydd, yn yr un telerau neu delerau tebyg, yn yr un Cynulliad o fewn y cyfnod o chwe mis ar ôl y dyddiad y methodd y Bil neu y cafodd ei wrthod.

26.77 Mae Bil yn methu os nad yw wedi'i basio neu wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad cyn diwedd y Cynulliad y'i cyflwynwyd ynddo.

26.78 Bydd cymeradwyaeth i gyflwyno Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.91 yn peidio â bod pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu.

26.79 Caniateir i Fil gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano ond rhaid peidio â'i dynnu'n ôl ar ôl i Gyfnod 1 gael ei gwblhau ac eithrio gyda chytundeb y Cynulliad.

## Biliau Pwyllgor

26.80 Mae Rheolau Sefydlog 26.81 i 26.83 yn gymwys i Filiau pwyllgor yn unig.

26.81 Caiff unrhyw bwyllgor gyflwyno Bil pwyllgor sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y pwyllgor.

26.82 Nid yw Rheolau Sefydlog 26.9 i 26.12 yn gymwys i Filiau pwyllgor.

26.83 Yng Nghyfnod 1, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil pwyllgor gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

## Biliau'r Comisiwn

26.84 Caiff y Comisiwn gyflwyno Bil sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn.

## Biliau Aelod

26.85 Mae Rheolau Sefydlog 26.86 i 26.94 yn gymwys i Filiau Aelod yn unig.

26.86 [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad y Cynulliad ar 16 Tachwedd 2011]

26.87 O bryd i'w gilydd, rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth a gaiff ofyn am gytundeb i gyflwyno Bil Aelod.

26.88 Rhaid i'r Llywydd gynnwys yn y balot enwau'r holl Aelodau hynny sydd wedi gwneud cais am gael eu cynnwys ac sydd wedi cyflwyno'r wybodaeth cyn y balot sy'n angenrheidiol o dan Reol Sefydlog 26.90.

26.89 Ni chaiff Aelod sydd wedi ennill y balot o'r blaen yn y Cynulliad hwnnw wneud cais o'r fath.

26.90 Yr wybodaeth sy'n angenrheidiol cyn y balot yw:

(i) teitl arfaethedig y Bil; a

(ii) Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo gynnwys:

(a) amcanion polisi y Bil; a

(b) manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed.

26.91 O fewn 25 diwrnod gwaith i ddyddiad y balot, caiff Aelod sy'n llwyddo mewn balot gyflwyno cynnig sy'n gofyn i'r Cynulliad gytuno iddo gyflwyno Bil Aelod er mwyn i'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 26.90 gael ei rhoi ar waith.

26.92 Rhaid trefnu bod amser ar gael i drafod cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26.91 o fewn 35 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y balot (heb gyfrif dyddiau gwaith mewn wythnos pan na fydd y Cynulliad yn eistedd).

26.93 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91, caiff yr Aelod sydd wedi cael cytundeb i gyflwyno Bil, o fewn naw mis i dderbyn y cynnig, gyflwyno Bil er mwyn i'r wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd o dan Reol Sefydlog 26.90 gael ei rhoi ar waith.

26.94 Os gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 26.91, ni chaiff Aelod ymuno ag unrhyw falot a gynhelir o dan Reol Sefydlog 26.87 am gyfnod o chwe mis ar ôl gwrthod y cynnig os yw amcanion polisi y Bil y mae'n ceisio cytundeb i'w gyflwyno yr un fath i raddau helaeth ag amcanion polisi y Bil y cyfeiriwyd ato yn y cynnig a wrthodwyd.

**Biliau Brys Llywodraeth**

26.95 Os yw'n ymddangos i aelod o'r llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil llywodraeth, a gyflwynir yn y Cynulliad, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth.

26.95A Rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu datganiad i gyd-fynd â chynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 a rhaid i'r datganiad hwn egluro:

i) pam y dylid ymdrin â'r Bil fel Bil Brys; a

ii) amcangyfrif o'r costau a'r canlyniadau eraill os na wneir hynny.

26.96 Caiff cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 gynnig hefyd y caiff Bil Brys llywodraeth gael ei gyflwyno heb y Memorandwm Esboniadol sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6.

26.97 Pan gyflwynir Bil Brys llywodraeth, rhaid cael datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano i gyd-fynd ag ef, sef datganiad y byddai darpariaethau'r Bil ym marn yr Aelod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

26.98 Os yw'r Cynulliad yn cytuno ar gynnig o dan Reol Sefydlog 26.95:

(i) rhaid i ddarpariaethau Rheolau Sefydlog 26.99 i 26.104 fod yn gymwys i Fil o'r fath; a

(ii) rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano gynnig yr amserlen ar gyfer ystyried Cyfnodau 1 i 4 (neu unrhyw Gyfnod Ailystyried) ar gyfer y Bil Brys arfaethedig llywodraeth.

26.99 Caiff cynnig o dan Reol Sefydlog 26.98(ii) gynnig ymdrin â'r holl gyfnodau mewn un diwrnod mewn wythnos eistedd.

26.100 Caiff yr Aelod sy'n gyfrifol wneud unrhyw newidiadau dilynol mewn amserlen a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 26.98(ii) ag y gwêl yn dda, ond rhaid rhoi rhesymau dros y newidiadau hynny.

26.101 Nid yw Rheolau Sefydlog 26.7 i 26.12, 26.16 i 26.18, 26.27 i 26.30, 26.45 i 26.46B, 26.50 a 26.59 yn gymwys mewn perthynas â Bil Brys llywodraeth.

26.102 Yng Nghyfnod 1, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Brys llywodraeth.

26.103 Rhaid i Gyfnod 2 gael ei ystyried gan bwyllgor o'r Cynulliad cyfan a'i gadeirio gan y Llywydd. Caiff y Llywydd a'r Dirprwy bleidleisio mewn trafodaethau o'r fath dim ond wrth ddefnyddio pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20.

26.104 Os yw Aelod yn bwriadu cyflwyno gwelliant i Fil Brys llywodraeth, rhaid i'r Aelod roi unrhyw hysbysiad ynglŷn â'r gwelliant hwnnw y bydd y Llywydd yn penderfynu arno ar gyfer y Cyfnod hwnnw.